# Y Côd

## Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

GWASANAETH
ERLYN
Y GORON

Gwasanaeth Erlyn y Goron yw'r prif awdurdod erlyn cyhoeddus ar gyfer Cymru a Lloegr dan arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae'r Twrnai Cyffredinol yn atebol i'r Senedd am y Gwasanaeth.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn sefydliad cenedlaethol sy'n cynnwys 42 Rhanbarth. Mae pob Rhanbarth dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron ac mae'n cyfateb i un o ranbarthau'r heddlu, gydag un ar gyfer Llundain. Fe'i sefydlwyd yn 1986 er mwyn erlyn achosion a ymchwilir gan yr heddlu.

Er bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, mae'n annibynnol arnynt. Mae annibyniaeth Erlynwyr y Goron o bwys cyfansoddiadol sylfaenol. Mae gwneud penderfyniadau am waith achosion penodol yn deg, yn ddiduedd a gonest yn helpu i gyflwyno cyfiawnder i ddioddefwyr, tystion, diffynyddion a'r cyhoedd.

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydweithredu gydag asiantaethau awdurdodaethau eraill sy'n ymchwilio ac erlyn.

Mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn gyfrifol am gyflwyno Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron dan adran 10 Deddf Erlyn Troseddau 1985. Mae'r Côd yn rhoi arweiniad ynghylch yr egwyddorion cyffredinol i'w defnyddio wrth benderfynu ynghylch erlyniadau. Dyma bumed argraffiad y Côd ac mae'n disodli pob fersiwn blaenorol. O safbwynt y Côd hwn, mae 'Erlynydd y Goron' yn cynnwys aelodau staff yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron a benodir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus dan adran 7A y Ddeddf ac sy'n arfer pwerau dan yr adran honno.

© Hawlfraint y Goron 2004
Rhaid anfon ceisiadau am gael atgynhyrchu'r côd hwn at Wasanaeth Erlyn y Goron

# 1 CYFLWYNIAD

**1.1** Mae penderfynu erlyn unigolyn yn gam difrifol. Mae erlyn yn deg ac effeithiol yn hollbwysig er mwyn cynnal cyfraith a threfn. Hyd yn oed mewn achos bach, mae goblygiadau difrifol i bawb sydd ynghlwm â'r achos – yn ddioddefwyr, yn dystion ac yn ddiffynyddion. Fe fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymhwyso'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron er mwyn gallu penderfynu'n deg a chyson ynghylch erlyniadau.

**1.2** Mae'r Côd yn helpu Gwasanaeth Erlyn y Goron i chwarae ei ran a sicrhau y ceir cyfiawnder. Mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n bwysig i swyddogion yr heddlu a phobl eraill sy'n gweithio yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol ac i'r cyhoedd. Fe ddylai swyddogion yr heddlu gadw at ddarpariaethau'r Côd hwn pan fyddan nhw'n gyfrifol am benderfynu a ydyn nhw am gyhuddo rhywun o gyflawni trosedd.

**1.3** Fe gafodd y Côd ei gynllunio hefyd i wneud yn siwr bod pawb yn gwybod yr egwyddorion y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cadw atynt wrth wneud ei waith. Trwy gadw at yr un egwyddorion, mae pawb sydd â rhan yn y gyfundrefn yn helpu i drin dioddefwyr, tystion a diffynyddion yn deg, gan erlyn achosion yn effeithiol.

# 2 EGWYDDORION CYFFREDINOL

**2.1** Mae pob achos yn unigryw a rhaid ei ystyried ar sail ei ffeithiau ei hun ac yn ôl ei deilyngdod. Fodd bynnag, mae yna egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i'r ffordd y mae'n rhaid i Erlynwyr y Goron ymdrin â phob achos.

**2.2** Rhaid i Erlynwyr y Goron fod yn deg, yn annibynnol ac yn wrthrychol. Rhaid iddynt beidio â gadael i unrhyw farn bersonol am darddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, rhyw, credoau crefyddol, daliadau gwleidyddol neu dueddfryd rhywiol y sawl a ddrwgdybir, y dioddefydd neu'r tyst, ddylanwadu ar eu penderfyniadau. Rhaid i bwysau amhriodol neu anaddas o unrhyw ffynhonnell beidio ag effeithio arnynt.

**2.3** Dyletswydd Erlynwyr y Goron yw sicrhau bod y person cywir yn cael ei erlyn am y trosedd cywir. Wrth wneud hynny, rhaid i Erlynwyr y Goron weithredu bob amser er budd cyfiawnder. Ni ddylent weithredu er mwyn cael barnu rhywun yn euog o drosedd yn unig.

**2.4** Dylai Erlynwyr y Goron roi cyfarwyddyd a chyngor i ymchwilwyr gydol y broses ymchwilio ac erlyn. Gallai hyn gynnwys trywyddau ymchwilio, gofynion tystiolaeth a chymorth gydag unrhyw weithdrefnau cyn cyhuddo. Bydd Erlynwyr y Goron yn mynd ati i nodi a, lle bo modd, unioni diffygion yn y dystiolaeth ac yn gweithredu'n fuan i gwblhau'r achosion hynny na ellir eu cryfhau trwy ymchwilio ymhellach.

**2.5** Dyletswydd Erlynwyr y Goron yw arolygu, cynghori ac erlyn achosion, gan sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso'n briodol, bod yr holl dystiolaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno gerbron y llys a bod y ddwy ochr yn dadlennu gwybodaeth yn briodol, yn unol â'r egwyddorion a bennir yn y Côd hwn.

**2.6** Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn awdurdod cyhoeddus er dibenion Deddf Iawnderau Dynol 1998. Rhaid i Erlynwyr y Goron gymhwyso egwyddorion y Cytundeb Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol yn unol â'r Ddeddf.

# 3 PENDERFYNU ERLYN

**3.1** Yn y rhan fwyaf o achosion, Erlynwyr y Goron sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid cyhuddo person o gyflawni trosedd, ac os dylid, pa drosedd sy'n briodol. Bydd Erlynwyr y Goron yn gwneud y penderfyniadau hyn yn unol â'r Côd hwn a Chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr ynghylch Cyhuddo. Mewn achosion ble mae'n rhaid i'r heddlu benderfynu ar y cyhuddiad, sef mân achosion arferol fel arfer, byddant yn cadw at yr un darpariaethau.

**3.2** Bydd Erlynwyr y Goron yn gwneud penderfyniadau am gyhuddo yn unol â'r Prawf Côd Llawn (gweler adran 5 isod), ac eithrio yn yr amgylchiadau cyfyngedig hynny ble mae'r Prawf Trothwy yn berthnasol (gweler adran 6 isod).

**3.3** Mae'r Prawf Trothwy yn berthnasol os yw'r achos yn un ble bwriedir cadw'r sawl a ddrwgdybir yn y ddalfa ar ôl ei gyhuddo, ond nad yw'r dystiolaeth ofynnol ar gael hyd yma ar gyfer cymhwyso'r Prawf Côd Llawn.

**3.4** Os bydd Erlynydd y Goron yn gwneud penderfyniad i gyhuddo yn unol â'r Prawf Trothwy, rhaid i'r achos gael ei arolygu yn unol â'r Prawf Côd Llawn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan roi ystyriaeth i gynnydd yr ymchwiliad.

## 4 AROLYGU

**4.1** Bydd pob achos y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei dderbyn gan yr heddlu yn cael ei arolygu er mwyn sicrhau ei bod hi'n briodol bwrw ymlaen â'r erlyniad. Oni bai fod y Prawf Trothwy yn berthnasol, ni fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dechrau neu'n parhau ag erlyniad oni bai fod yr achos wedi bodloni dau gam y Prawf Côd Llawn.

**4.2** Mae arolygu yn broses barhaus a rhaid i Erlynwyr y Goron ystyried unrhyw newid yn yr amgylchiadau. Lle bynnag y bo modd, dylent siarad â'r heddlu yn gyntaf os ydynt yn ystyried newid y cyhuddiadau neu atal yr achos. Dylai Erlynwyr y Goron ddweud wrth yr heddlu hefyd os ydynt o'r farn y gall rhywfaint o dystiolaeth ychwanegol gryfhau'r achos. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r heddlu ddarparu rhagor o wybodaeth a allai effeithio ar y penderfyniad.

**4.3** Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu yn cydweithio'n agos, ond Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu a ddylid cyhuddo neu fwrw ymlaen ag achos ai peidio.

## 5 Y PRAWF CÔD LLAWN

**5.1** Y mae dau gam i'r Prawf Côd Llawn. Y cam cyntaf yw ystyried y dystiolaeth. Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid peidio â bwrw ymlaen, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol yw'r achos. Os yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid i Erlynwyr y Goron symud ymlaen at yr ail gam a phenderfynu a oes angen erlyn er budd y cyhoedd. Mae'r ddau gam yn cael eu hegluro isod.

### Y CAM TYSTIOLAETHOL

**5.2** Rhaid i Erlynwyr y Goron fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi 'gobaith realistig o euogfarn' yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad. Rhaid iddynt ystyried achos tebygol yr amddiffyniad, a sut mae hynny'n debygol o effeithio ar achos yr erlyniad.

**5.3** Mae gobaith realistig o euogfarn yn brawf gwrthrychol. Mae'n golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando achos ar ei ben ei hun, a dderbyniodd gyfarwyddwyd priodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o farnu'r diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Mae hwn yn brawf ar wahân i'r prawf y mae'n rhaid i'r llysoedd troseddol eu hunain ei ystyried. Ni ddylai llys farnu'n euog oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn sicr o euogrwydd y diffynnydd.

**5.4** Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i Erlynwyr y Goron ystyried a ellir defnyddio'r dystiolaeth ac a yw'n ddibynadwy. Fe fydd llawer o achosion lle nad yw'r dystiolaeth yn achos pryder. Ond fe fydd achosion eraill lle na fydd y dystiolaeth mor gryf ag yr ymddangosai ar y cychwyn.

Rhaid i Erlynwyr y Goron ofyn y cwestiynau canlynol iddynt eu hunain:

**A ellir defnyddio'r dystiolaeth yn y llys?**

**a** A yw hi'n debygol y bydd y dystiolaeth yn cael ei gwahardd gan y llys? Mae yna rai rheolau cyfreithiol a all rwystro tystiolaeth sy'n ymddangos yn berthnasol rhag cael ei chyflwyno mewn treial. Er enghraifft, a yw hi'n debygol y bydd y dystiolaeth yn cael ei gwahardd oherwydd y ffordd y cafodd ei chasglu? Os hynny, a oes digon o dystiolaeth arall i gael gobaith realistig o euogfarn?

**A yw'r dystiolaeth yn ddibynadwy?**

**b** A oes tystiolaeth a allai gefnogi neu danseilio dibynadwyedd cyffesiad? A yw ffactorau megis oedran, deallusrwydd neu lefel dealltwriaeth y diffynnydd yn effeithio ar ddibynadwyedd y dystiolaeth?

**c** Pa esboniad a roddodd y diffynnydd? A yw llys yn debygol o gredu'r esboniad o ystyried yr holl dystiolaeth? A yw'r dystiolaeth yn cefnogi esboniad diniwed?

**d** Os yw'r achos yn debygol o gwestiynu sut cafodd y diffynnydd ei adnabod, a yw'r dystiolaeth am hyn yn ddigon cryf?

**e** A yw cefndir y tyst yn debygol o wanhau achos yr erlyniad? Er enghraifft, a oes gan y tyst unrhyw gymhelliad a allai effeithio ar ei agwedd ef neu hi tuag at yr achos, neu euogfarn berthnasol o'r blaen?

**f** A oes pryderon ynghylch cywirdeb neu hygrededd tyst? A

oes tystiolaeth yn sail i'r pryderon hyn? Ynteu pryderon ar sail gwybodaeth yn unig ydynt, heb ddim i'w hategu? A oes rhagor o dystiolaeth y dylid gofyn i'r heddlu geisio ei chasglu a allai gefnogi neu danseilio disgrifiad y tyst?

**5.5** Ni ddylai Erlynwyr y Goron anwybyddu tystiolaeth oherwydd nad ydynt yn sicr a ellir ei defnyddio neu a yw'n ddibynadwy. Ond fe ddylent edrych yn ofalus ar y dystiolaeth wrth benderfynu a oes gobaith realistig o euogfarn.

## CAM BUDD Y CYHOEDD

**5.6** Yn 1951, fe gafwyd datganiad clasurol ar fudd y cyhoedd gan yr Arglwydd Shawcross, y Twrnai Cyffredinol, datganiad a gefnogwyd gan Dwrneiod Cyffredinol byth ers hynny: "Ni fu hi erioed yn rheol yn y wlad hon – gobeithio na fydd hi byth – ein bod ni'n awtomatig yn erlyn lle bo amheuaeth o drosedd". (Dadleuon Tŷr Cyffredin, cyfrol 483, colofn 681, 29 Ionawr 1951.)

**5.7** Rhaid ystyried budd y cyhoedd ym mhob achos lle mae digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn. Yn aml, er y gall fod ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyn mewn achos penodol, fe ddylid bwrw ymlaen â'r erlyniad a chyflwyno'r ffactorau hynny gerbron y llys i gael eu hystyried wrth ddedfrydu. Fel arfer fe fydd yr erlyn yn mynd yn ei flaen oni bai fod y ffactorau budd y cyhoedd sy'n gogwyddo yn erbyn erlyn yn amlwg yn fwy na'r ffactorau o'i blaid, neu ei bod hi'n ymddangos yn fwy priodol dan holl amgylchiadau'r achos i ddewis llwybr arall yn hytrach nag erlyn y person (gweler adran 8 isod).

**5.8** Rhaid i Erlynwyr y Goron bwyso a mesur ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus a theg. Fel arfer, bydd ffactorau budd y cyhoedd sy'n gallu effeithio ar y penderfyniad i erlyn yn dibynnu ar ddifrifoldeb y trosedd neu amgylchiadau'r sawl a ddrwgdybir. Gall rhai ffactorau gynyddu'r angen i erlyn ond gall eraill awgrymu y byddai'n well gweithredu mewn ffordd arall.

**Dyma restrau o rai ffactorau cyffredin i'w hystyried o ran budd y cyhoedd, o blaid ac yn erbyn erlyn: nid yw'r rhestrau yn hollgynhwysol. Fe fydd y ffactorau sy'n berthnasol yn dibynnu ar ffeithiau pob achos.**

**Rhai ffactorau cyffredin o ran budd y cyhoedd sydd o blaid erlyn.**

**5.9** Po fwyaf difrifol yw'r trosedd, mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyn er budd y cyhoedd. Mae'n debygol y bydd angen erlyn:

**a** os bydd dyfarniad euog yn debygol o arwain at ddedfryd sylweddol;

**b** os bydd dyfarniad euog yn debygol o arwain at orchymyn atafaelu neu unrhyw orchymyn arall;

**c** os cafodd arf ei ddefnyddio neu os bu bygwth trais wrth gyflawni'r trosedd;

**d** os cafodd y trosedd ei gyflawni yn erbyn rhywun sy'n gwasanaethu'r cyhoedd (er enghraifft, swyddog yr heddlu, swyddog carchar, neu nyrs);

**e** os oedd y diffynnydd mewn swydd o awdurdod neu ymddiriedaeth;

**f** os bydd y dystiolaeth yn dangos mai'r diffynnydd oedd yn gyfrifol am arwain neu drefnu'r trosedd;

**g** os oes tystiolaeth bod y trosedd yn un rhagfwriadol;

**h** os oes tystiolaeth bod y trosedd wedi'i gyflawni gan grŵp;

**i** os oedd y sawl a ddioddefodd yn sgil y trosedd yn fregus, wedi wynebu cryn fraw, neu wedi dioddef ymosodiad personol, difrod neu darfu;

**j** os cafodd y trosedd ei gyflawni ym mhresenoldeb plentyn neu'n agos at blentyn;

**k** os cafodd y trosedd ei symbylu gan wahaniaethu o unrhyw fath yn erbyn tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, rhyw, credoau crefyddol, daliadau gwleidyddol neu dueddfryd rhywiol y dioddefydd, neu os yw'r sawl a ddrwgdybir wedi bod yn elyniaethus tuag at y dioddefydd ar sail unrhyw rai o'r nodweddion hynny;

**l** os oes gwahaniaeth mawr rhwng gwir oedrannau neu oedrannau meddyliol y diffynnydd a'r dioddefydd, neu os oes unrhyw elfen o lygru;

**m** os bydd euogfarnau neu rybuddiadau blaenorol y diffynnydd yn berthnasol i'r trosedd presennol;

**n** os honnir bod y diffynnydd wedi cyflawni'r trosedd ag yntau neu hithau dan orchymyn y llys;

**o** os oes sail dros gredu bod y trosedd yn debygol o barhau neu gael ei ailadrodd, er enghraifft, os oes cefndir o ymddygiad sy'n ailddigwydd;

**p** os bydd y trosedd, er nad yn ddifrifol ynddo'i hun, yn gyffredin yn yr ardal lle cafodd ei gyflawni; neu

**q** os byddai erlyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol o ran cynnal hyder y gymuned.

**Rhai ffactorau cyffredin o ran budd y cyhoedd sydd yn erbyn erlyn**

**5.10** Mae hi'n llai tebygol y bydd angen erlyn:

**a** os yw'r llys yn debygol o roi cosb mewn enw yn unig;

**b** os yw'r diffynnydd eisoes dan ddedfryd ac na fyddai euogfarn arall yn debygol o arwain at osod dedfryd neu orchymyn ychwanegol, oni bai fod natur y trosedd penodol yn galw am erlyn neu fod y diffynnydd yn diddymu ei ganiatâd i drosedd gael ei ystyried adeg dedfrydu.

**c** os cafodd y trosedd ei gyflawni o ganlyniad i gamddealltwriaeth neu gamgymeriad gwirioneddol (rhaid ystyried y ffactorau hyn yn erbyn difrifoldeb y trosedd);

**d** os gellir dweud mai colled neu niwed 'bychan' a gafwyd, a hynny o ganlyniad i un digwyddiad, yn enwedig os cafodd ei achosi gan gamfarnu;

**e** os bu oedi hir rhwng cyflawni'r trosedd a dyddiad y treial, oni bai:

- fod y trosedd yn un difrifol;
- fod y diffynnydd yn rhannol gyfrifol am yr oedi;
- fod y trosedd newydd ddod i'r amlwg; neu
- fod cymhlethdod y trosedd wedi golygu ymchwiliad hir;

**f** os bydd erlyn yn debygol o effeithio'n ddrwg ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefydd, gan gadw difrifoldeb y trosedd mewn cof bob amser;

**g** os yw'r diffynnydd yn hen neu'n dioddef o salwch meddyliol neu gorfforol difrifol, neu y bu'n dioddef fell adeg y trosedd, oni bai fod y trosedd yn un difrifol ne fod posibilrwydd gwirioneddol y gallai trosedd o'r fath ddigwydd eto. Lle bo angen, fe fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithredu canllawiau'r Swyddfa Gartref ynghylch ymdrin â throseddwyr ag afiechyd meddyliol Rhaid i Erlynwyr y Goron bwyso a mesur pa mor adda fyddai dargyfeirio diffynnydd sy'n dioddef o salwc meddyliol neu gorfforol difrifol ochr yn ochr â'r angen amddiffyn y cyhoedd;

**h** os bydd y diffynnydd wedi gwneud iawn am y golled neu'r niwed a achoswyd (ond ni ddylai diffynyddion osgoi cae eu herlyn neu eu dargyfeirio oherwydd eu bod yn tal iawndal yn unig); neu

**i** os gallai manylion gael eu rhyddhau i'r cyhoedd a allai wneud drwg i ffynonellau gwybodaeth, cysylltiadau rhyngwladol neu ddiogelwch y wlad.

**5.11** Mae penderfynu ar fudd y cyhoedd yn fwy na mater o adio nifer y ffactorau ar bob ochr yn unig. Rhaid i Erlynwyr y Goron benderfynu pa mor bwysig yw pob ffactor dan amgylchiadau pob achos er mwyn gwneud asesiad cyffredinol.

**Y berthynas rhwng y dioddefydd a budd y cyhoedd**

**5.12** Nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithredu ar ran dioddefwyr neu deuluoedd dioddefwyr yn yr un ffordd ag y mae cyfreithwyr yn gweithredu ar ran eu cleientiaid. Mae Erlynwyr y Goron yn gweithredu ar ran y cyhoedd ac nid yn unig er budd unrhyw unigolyn penodol. Wrth ystyried budd y cyhoedd, dylai Erlynwyr y Goron bob amser ystyried canlyniadau erlyn ai peidio ar y dioddefydd, ac unrhyw farn a fynegir gan y dioddefydd neu deulu'r dioddefydd. Fodd bynnag, Erlynydd y Goron sy'n gyfrifol am y penderfyniad.

**5.13** Mae'n bwysig bod dioddefwyr yn cael gwybod am benderfyniad sy'n gwneud gwahaniaeth mawr i'r achos sy'n berthnasol iddyn nhw. Fe ddylai Erlynwyr y Goron sicrhau eu bod yn dilyn unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt.

## 6 Y PRAWF TROTHWY

**6.1** Yn y Prawf Trothwy rhaid i Erlynwyr y Goron benderfynu a oes amheuaeth resymol o leiaf bod y sawl a ddrwgdybir wedi cyflawni trosedd, ac os oes, a yw cyhuddo'r sawl a ddrwgdybir er budd y cyhoedd.

**6.2** Bydd y Prawf Trothwy yn cael ei gymhwyso i'r achosion hynny ble na fyddai'n briodol rhyddhau'r sawl a ddrwgdybir ar fechnïaeth ar ôl ei gyhuddo, ond nad yw'r dystiolaeth ar gael hyd yma i gymhwyso'r Prawf Côd Llawn.

**6.3** Mae yna derfynau statudol sy'n cyfyngu ar yr amser y gall y sawl a ddrwgdybir aros yn nalfa'r heddlu cyn bod raid gwneud penderfyniad i'w gyhuddo neu ei ryddhau. Fe fydd yna achosion ble byddai rhyddhau'r sawl a ddrwgdybir o'r ddalfa

ar fechnïaeth yn peri risg sylweddol, ond mae'n bosib na fydd llawer o'r dystiolaeth ar gael pan ddaw'n adeg penderfynu cyhuddo ai peidio. Bydd Erlynwyr y Goron yn cymhwyso'r Prawf Trothwy i achosion o'r fath am gyfnod cyfyngedig.

**6.4** Bydd y penderfyniad tystiolaethol ym mhob achos yn gofyn am ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys:

- y dystiolaeth sydd ar gael ar y pryd;
- y tebygolrwydd y ceir rhagor o dystiolaeth a natur y dystiolaeth honno;
- pa mor rhesymol yw credu y bydd rhagor o dystiolaeth ar gael;
- yr amser a gymerir i gasglu'r dystiolaeth honno a'r camau ar y gweill er mwyn gwneud hynny;
- effaith y dystiolaeth ddisgwyliedig ar yr achos;
- y cyhuddiadau y bydd y dystiolaeth yn eu cefnogi.

**6.5** Yr un ystyr sydd i fudd y cyhoedd ag o dan y Prawf Côd Llawn, ond bydd yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael adeg y cyhuddo, sef gwybodaeth gyfyngedig yn aml.

**6.6** Rhaid dal i arolygu penderfyniad i gyhuddo ac atal mechnïaeth. Rhaid i'r dystiolaeth a gesglir gael ei chloriannu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyhuddiad yn dal yn briodol a bod cyfiawnhad dros barhau i wrthod mechnïaeth. Rhaid cymhwyso'r Prawf Côd Llawn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## 7 DEWIS CYHUDDIADAU

**7.1** Fe ddylai Erlynwyr y Goron ddewis cyhuddiadau sydd:

**a** yn adlewyrchu pa mor ddifrifol yw'r troseddu a hyd a lled y troseddu;

**b** yn rhoi pwerau addas i'r llys gael dedfrydu a gosod gorchmynion priodol ar ôl euogfarnu; ac

**c** yn sicrhau bod yr achos yn cael ei gyflwyno yn glir a syml.

Mae hyn yn golygu na fydd Erlynwyr y Goron bob amser yn bwrw ymlaen neu barhau â'r cyhuddiad mwyaf difrifol ble mae dewis.

**7.2** Ni ddylai Erlynwyr y Goron fyth fwrw ymlaen â mwy o gyhuddiadau nag sy'n angenrheidiol dim ond er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i ychydig o gyhuddiadau. Yn yr un modd, ni ddylent fyth fwrw ymlaen â chyhuddiad mwy difrifol dim ond er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i gyhuddiad llai difrifol.

**7.3** Ni ddylai Erlynwyr y Goron newid y cyhuddiad dim ond oherwydd y penderfyniad a wnaed gan y llys neu'r diffynnydd ynghylch ble y gwrandawir yr achos.

# 8 DEWISIADAU ERAILL HEBLAW ERLYN

## OEDOLION

**8.1** Wrth benderfynu a ddylid erlyn achos yn y llysoedd, fe ddylai Erlynwyr y Goron ystyried y dewisiadau heblaw erlyn. Lle bo'n briodol, gellir ystyried a oes prosesau addas ar gyfer ailsefydlu, gwneud iawn neu gyfiawnder adferol.

**8.2** Dewisiadau eraill yn hytrach nag erlyn oedolion a ddrwgdybir fyddai rhoi rhybuddiad syml neu rybuddiad amodol.

### Rhybuddiad syml

**8.3** Ni ddylid rhoi rhybuddiad syml oni bai fod budd y cyhoedd yn cyfiawnhau hynny ac yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Os teimlir y byddai rhybuddiad yn briodol, rhaid i Erlynwyr y Goron hysbysu'r heddlu er mwyn iddynt roi rhybuddiad i'r sawl a ddrwgdybir. Os na roddir y rhybuddiad oherwydd bod y sawl a ddrwgdybir yn gwrthod ei dderbyn, fe all Erlynydd y Goron arolygu'r achos drachefn.

### Rhybuddiad amodol

**8.4** Gall fod yn briodol rhoi rhybuddiad amodol os bydd yr erlynydd o'r farn ganlynol: er bod budd y cyhoedd yn cyfiawnhau erlyn, gallai fod mwy o fudd i'r sawl a ddrwgdybir, y dioddefydd a'r gymuned petai'r sawl a ddrwgdybir yn cwblhau amodau addas gyda'r nod o ailsefydlu neu wneud iawn. Gallai'r rhain gynnwys prosesau adferol.

**8.5** Rhaid i Erlynwyr y Goron fod yn fodlon fod yna ddigon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn ac y byddai budd y cyhoedd yn cyfiawnhau erlyniad petai'r cynnig o rybuddiad

amodol yn cael ei wrthod neu bod y troseddwr yn methu cydymffurfio ag amodau ’r rhybuddiad y cytunwyd arnynt.

**8.6** Wrth ddod i benderfyniad, dylai Erlynwyr y Goron ddilyn y Côd Ymarfer ar Rybuddiadau Amodol ac unrhyw gyfarwyddyd ar rybuddiadau amodol a gyflwynwyd neu a gymeradwywyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

**8.7** Os bydd Erlynydd y Goron o’r farn bod rhybuddiad amodol yn briodol, rhaid iddynt hysbysu’r heddlu, neu awdurdod arall sy’n gyfrifol am weinyddu’r rhybuddiad amodol, yn ogystal â rhoi arwydd o’r amodau priodol fel y gellir gweinyddu’r rhybuddiad amodol.

## POBL IFANC

**8.8** Rhaid i Erlynwyr y Goron ystyried buddiannau’r bobl ifanc wrth benderfynu a fyddai eu herlyn er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, ni ddylai Erlynwyr y Goron osgoi erlyn oherwydd oedran y diffynnydd yn unig. Mae difrifoldeb y trosedd neu ymddygiad y person ifanc yn y gorffennol yn bwysig iawn.

**8.9** Fel arfer, ni fydd achosion sy’n gysylltiedig â phobl ifanc yn cael eu cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron i’w herlyn nes bydd y person ifanc eisoes wedi derbyn cerydd a rhybuddiad terfynol, oni bai fod y trosedd mor ddifrifol fel nad oedd yr un o’r rhain yn briodol neu nad yw’r person ifanc yn cyfaddef iddo gyflawni’r trosedd. Bwriad cerydd a rhybuddiad terfynol yw atal pobl ifanc rhag aildroseddu ac mae’r ffaith y bu trosedd pellach yn dangos na fu’r ymdrechion i’w cadw rhag cyfundrefn y llys yn effeithiol. Felly, fel arfer fe fydd budd y cyhoedd yn mynnu y dylid erlyn achosion o’r fath, oni bai fod ffactorau amlwg o ran budd y cyhoedd sy’n erbyn erlyn.

## 9 DULL Y TREIAL

**9.1** Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn defnyddio'r canllawiau presennol ar gyfer ynadon sy'n gorfod penderfynu a ddylai achosion gael eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron, lle bo'r trosedd yn golygu bod dewis a lle nad yw'r diffynnydd yn pledio'n euog. Fe ddylai Erlynwyr y Goron argymell treial yn Llys y Goron pan fyddant yn fodlon bod y canllawiau yn mynnu eu bod yn gwneud hynny.

**9.2** Wrth ofyn am i achos gael aros yn llys yr ynadon, ni ddylid gwneud hynny o safbwynt cyflymdra yn unig. Ond fe ddylai Erlynwyr y Goron ystyried effaith unrhyw oedi tebygol os byddant yn anfon achos i Lys y Goron, ac unrhyw bwysau posib ar ddioddefwyr a thystion os bydd oedi yn yr achos.

## 10 DERBYN PLEDION EUOG

**10.1** Mae'n bosib y bydd diffynyddion eisiau pledio'n euog i rai cyhuddiadau, ond nid yr holl gyhuddiadau. Neu, mae'n bosib y byddant eisiau pledio'n euog i gyhuddiad gwahanol, cyhuddiad llai difrifol o bosib, oherwydd eu bod yn cyfaddef i ran o'r trosedd yn unig. Ni ddylai Erlynwyr y Goron dderbyn ple'r diffynnydd oni bai eu bod o'r farn y gall y llys draddodi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y trosedd, yn enwedig os oes nodweddion sy'n gwaethygu'r trosedd. Rhaid i Erlynwyr y Goron beidio byth â derbyn ple euog dim ond oherwydd bod hynny'n gyfleus.

**10.2** Wrth ystyried a yw'r pledion a gynigir yn dderbyniol, dylai Erlynwyr y Goron sicrhau bod buddiannau'r dioddefydd a, ble bo modd, unrhyw safbwyntiau a fynegir gan y dioddefydd neu deulu'r dioddefydd, yn cael eu hystyried wrth benderfynu a yw derbyn y ple er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, Erlynydd y Goron sy'n gyfrifol am y penderfyniad.

**10.3** Rhaid egluro wrth y llys ar ba sail y cyflwynir ac y derbynnir unrhyw ble. Mewn achosion lle bydd diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiadau ond ar sail ffeithiau sy'n wahanol i achos yr erlyniad, a ble gall hyn effeithio'n sylweddol ar y ddedfryd, fe ddylid gwahodd y llys i wrando tystiolaeth er mwyn penderfynu'r hyn a ddigwyddodd, ac yna ddedfrydu ar sail hynny.

**10.4** Os bydd diffynnydd wedi nodi cyn hynny y bydd ef neu hi'n gofyn i'r llys gymryd trosedd i ystyriaeth wrth ddedfrydu, ond yna'n gwrthod cyfaddef y trosedd yn y llys, bydd Erlynwyr y Goron yn ystyried a oes angen erlyn am y trosedd hwnnw. Dylai Erlynwyr y Goron egluro wrth adfocad yr amddiffyniad a'r

llys y gallai erlyn y trosedd hwnnw fod yn destun arolwg pellach.

**10.5** Rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried pledion a fyddai'n galluogi'r diffynnydd i osgoi'r ddedfryd fandadol leiaf. Wrth gynnig pledion, rhaid i Erlynwyr y Goron gofio y gellir gwneud gorchmynion ategol gyda rhai troseddau ond nid gydag eraill.

## 11 RÔL YR ERLYNYDD WRTH DDEDFRYDU

**11.1** Dylai Erlynwyr y Goron dynnu sylw'r llys at:

- unrhyw ffactorau gwaethygol neu liniarol a ddadlennir gan achos yr erlyniad;
- unrhyw ddatganiad personol gan y dioddefydd;
- ble bo'n briodol, tystiolaeth o effaith y troseddu ar gymuned;
- unrhyw ddarpariaethau statudol neu ganllawiau ar ddedfrydu a allai fod o gymorth;
- unrhyw ddarpariaethau statudol perthnasol yn gysylltiedig â gorchmynion ategol (megis gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol).

**11.2** Dylai Erlynydd y Goron herio unrhyw haeriad lliniarol a wneir gan yr amddiffyniad sy'n anghywir, yn gamarweiniol neu'n niweidiol. Os bydd yr amddiffyniad yn parhau gyda'r haeriad, a'i fod yn ymddangos yn berthnasol i'r ddedfryd, dylid gwahodd y llys i wrando ar dystiolaeth i bennu'r ffeithiau a dedfrydu yn unol â hynny.

## 12 AILDDECHRAU ERLYNIAD

**12.1** Fe ddylai pobl allu dibynnu ar benderfyniadau Gwasanaeth Erlyn y Goron. Fel arfer, os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dweud wrth rywun a ddrwgdybir neu ddiffynnydd na fydd yna erlyniad, neu fod yr erlyniad wedi'i atal, dyna ddiwedd ar y mater ac ni fydd yr achos yn ailddechrau. Ond weithiau fe fydd yna resymau arbennig pam y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ailddechrau erlyn, yn enwedig os yw'r achos yn un difrifol.

**12.2** Dyma rai o'r rhesymau:

**a** achosion prin lle bydd ailedrych ar y penderfyniad gwreiddiol yn dangos ei fod yn amlwg yn anghywir ac na ddylid caniatáu i'r penderfyniad sefyll;

**b** achosion sy'n cael eu hatal er mwyn casglu a pharatoi rhagor o dystiolaeth sy'n debygol o fod ar gael yn y dyfodol cymharol agos. Yn yr achosion hyn, fe fydd Erlynydd y Goron yn dweud wrth y diffynnydd ei bod hi'n bosib y gallai'r erlyniad ddechrau eto; ac

**c** achosion sy'n cael eu hatal oherwydd diffyg tystiolaeth ond lle daw rhagor o dystiolaeth arwyddocaol i'r golwg yn ddiweddarach.

**12.3** Gall fod achosion eithriadol hefyd, yn dilyn rhyddfarnu person o gyflawni trosedd difrifol, ble gallai Erlynydd y Goron, gyda chaniatâd ysgrifenedig y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, wneud cais i'r Llys Apêl am orchymyn yn dileu'r rhyddfarnu a mynnu bod y diffynnydd yn cael ei ail-roi ar brawf, yn unol â Rhan 10 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

يتوفر هذا المنشور باللغة العربية

এই বইটি বাঙলা ভাষাতেও পাওয়া যাবে।

本出版物備有中文版本供索取。

આ પ્રકાશન ગુજરાતીમાં ઉપલબ્ધ છે.

ਇਹ ਪ੍ਰਕਾਸ਼ਤ ਪੱਜਾਬੀ ਵਿਚ ਉਪਲਬੱਧ ਹੈ।

یہ اشاعت اُردو میں دستیاب ہے۔

This publication is available in English

**Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron**

**Mae'r *Côd* yn ddogfen gyhoeddus. Fe'i ceir ar Wefan y CPS:**
www.cps.gov.uk

**Fe gewch chi ragor o gopïau gan:**
CPS Communications Branch
50 Ludgate Hill
London EC4M 7EX
Ffôn: 020 7796 8442
Ffacs: 020 7796 8030
E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

**Mae cyfieithiadau i ieithoedd eraill ar gael, a chopïau ar dâp sain neu mewn braille. Cysylltwch â Changen Cyfathrebu y CPS (uchod) am fanylion.**

**Mae Canolfan Ymholiadau'r Cyhoedd y CPS yn gallu rhoi gwybodaeth gyffredinol am y CPS a chyngor ynghylch pwy i gysylltu â nhw. Nid yw'r uned yn gallu rhoi cyngor cyfreithiol ond mae'n bosib y gallan nhw gynnig gwybodaeth ymarferol.**

Canolfan Ymholiadau'r Cyhoedd y CPS:
Ffôn:: 020 7796 8500
Mae'n bosib y bydd galwadau ffôn yn cael eu recordio

**e-bost ar gyfer ymholiadau a sylwadau:**
enquiries@cps.gsi.gov.uk

**gallwch anfon cwynion at:**
complaints@cps.gsi.gov.uk

**Cyhoeddwyd Tachwedd 2004**